

Adolygu gallu'r 'Gronfa Ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw' (SAIL) i ddarparu data ar gyfer y 'Fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth' – Adroddiad Terfynol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Crynodeb Ymchwil

Rhif: 71/2015

Cyflwyniad

1. Nod y Prosiect oedd:
 - archwilio a ellir defnyddio dangosyddion canlyniadau ychwanegol o'r gronfa ddata 'Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw' (SAIL) ym Mhrifysgol Abertawe i ddangos a yw'r canlyniadau llesiant sydd wedi'u nodi yn y *fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth* yn cael eu cyflawni. Gellid tynnu dangosyddion o ddata gweinyddol presennol neu drwy gysylltu setiau data gweinyddol a/neu arolwg sydd yn y gronfa ddata;
 - pennu i ba raddau y gellid defnyddio data presennol yn SAIL i dynnu sylw at y gwahanol grwpiau cleientiaid y mae'r datganiad llesiant yn berthnasol iddynt a sefydlu maint 'samplau' grŵp cleientiaid penodol y gellir eu diffinio; bydd hyn yn gam cyntaf at ddarparu dadansoddiad ar gyfer grwpiau cleientiaid penodol;
 - ymchwilio i faterion llywodraethu sy'n ymwneud â rhannu data gofal cymdeithasol awdurdodau lleol gyda chronfa ddata SAIL ym Mhrifysgol Abertawe.
2. Cynhaliwyd y gwaith ymchwil a dadansoddi ar gyfer y Prosiect rhwng Awst 2013 a Thachwedd 2014; roedd y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad yn gywir ym mis Tachwedd 2014.

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Canfyddiadau Allweddol

3. Roedd y Prosiect yn archwilio materion caffael data gofal cymdeithasol gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru a sut y gellir goresgyn y materion hyn. Drwy archwilio darn o ddata gofal cymdeithasol ar gyfer Cyngor Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2004-07, daeth y Prosiect i'r casgliad y gall data gweinyddol fod yn ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth am gleientiaid gofal cymdeithasol ac y byddai caffael set ddata gofal cymdeithasol Cymru gyfan, er yn anodd, yn cynorthwyo'r gwaith o adrodd y dangosyddion canlyniadau a restrir isod gan gyfrannu'n sylweddol at y sail dystiolaeth.
4. Mae'r prif Adroddiad yn archwilio sut y gellid tynnu sylw at grwpiau defnyddwyr amrywiol posibl yn ddiennw er mwyn gallu adrodd ar ddangosyddion canlyniad ar wahân fesul grŵp defnyddwyr. Dylid nodi bod angen coethi'r diffiniadau o grwpiau defnyddwyr ymhellach, e.e. i gytuno ar ba amodau'n union sy'n cynnwys 'iechyd (salwch) meddwl', ac i werthuso a fyddai pob dangosydd canlyniad posibl yn ychwanegu gwerth at y gyfres gyfredol o ddangosyddion perfformiad sydd eisoes wedi'u nodi yn y fframwaith canlyniadau.
5. Roedd y Prosiect yn nodi nifer o ddangosyddion canlyniad posibl y gellid eu defnyddio ynghyd â'r gyfres gyfredol o ddangosyddion perfformiad yn y fframwaith canlyniadau. Rhestrir y dangosyddion canlyniadau ychwanegol posibl isod ond dylid nodi y bydd angen gwaith datblygu pellach ar y rhan fwyaf o'r dangosyddion hyn neu gaffael data pellach cyn y gellir dechrau adrodd. Mae'r prif adroddiad yn trafod y dangosyddion canlyniadau ychwanegol posibl yn fanylach, gan gynnwys i ba raddau y gellir adrodd ar bob prif ddangosydd ar wahân fesul grŵp defnyddwyr, ac mae'n disgrifio'r gwaith caffael data a/neu ddatblygu sydd ei angen i'n galluogi i adrodd ar bob dangosydd posibl.
6. Mae prif ddangosyddion ychwanegol sydd ar gael heb ddata cyswilt fel a ganlyn (D.S. os oes angen adrodd ar wahân fesul grŵp defnyddwyr neu ar gyfer defnyddwyr gofal cymdeithasol, BYDD angen cysylltu data):
 - Canran y bobl ifanc sy'n derbyn Lwfans Cynhaliaeth Addysg Cymru neu Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach).
 - Canran yr oedolion gyda chofnod yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru.
 - Canran yr oedolion, 'oedolion iau' ac 'oedolion hŷn' sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon ac ymarfer corff amrywiol, gwirfoddoli mewn chwaraeon,

sy'n aelodau o glybiau chwaraeon, yn cymryd rhan mewn chwaraeon cystadleuol neu'n defnyddio canolfannau hamdden a ffitrwydd.

7. Mae'r prif ddangosyddion ychwanegol a **allai** fod ar gael heb ddata cyswllt fel a ganlyn:

- Canran y plant sy'n derbyn Dechrau'n Deg sy'n bodloni'r disgwyliad y byddent yn cyrraedd Lefel 2 ym mhob pwnc yn 7 oed/Cyfnod Allweddol 1.

8. Mae'r prif ddangosyddion ychwanegol sydd ar gael heb lawer o waith caffael neu ddatblygu ychwanegol, ond drwy ddata cyswllt yn unig fel a ganlyn:

- Canran y cleifion a gafodd un o 20 taflen gyngor neu unrhyw fath o gyngor llafar gan eu meddygfa.
- Canran y plant sy'n gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg a aseswyd i fod yn hollol barod ar gyfer yr ysgol ar ôl dechrau'r Cyfnod Sylfaen (ni fydd y data ar gael tan 2016).
- Canran y plant sy'n gymwys am Dechrau'n Deg sy'n bodloni'r disgwyliad y byddent yn cyrraedd Lefel 2 ym mhob pwnc yn 7 oed/Cyfnod Allweddol 1.

9. Mae'r prif ddangosyddion ychwanegol sydd ar gael gyda gwaith caffael neu ddatblygu data ychwanegol sylweddol, sydd ond ar gael drwy ddata cyswllt fel a ganlyn:

- Statws gwrthrychol a adroddir gan feddygon iechyd corfforol a meddyliol.
- Cyfartaledd sgôr 'hapusrwydd' a hunanadroddwyd ar gyfer defnyddwyr gofal cymdeithasol (o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol).
- Canran y bobl sydd wedi profi cam-drin domestig sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol neu wasanaethau tai â chymorth, e.e. Cefnogi Pobl.
- Canran y bobl sy'n: i) adrodd eu bod yn teimlo'u bod yn perthyn i'w cymdogaeth; ii) meddwl bod eu hardal leol yn lleoliad lle mae pobl o wahanol gefndiroedd yn tynnu 'mlaen yn dda; neu iii) meddwl bod pobl yn eu hardal leol yn trin ei gilydd gyda pharch ac yn ystyriol i'w gilydd ac sy'n derbyn a) gwasanaethau gofal cymdeithasol; a b) gwasanaethau tai â chymorth, e.e. Cefnogi Pobl.
- Canran y bobl sy'n adrodd eu bod yn fodlon â: i) 'cysylltiadau personol' a ii) 'lles (eu) plant' ac sy'n derbyn: a) gwasanaethau gofal cymdeithasol; a b) gwasanaethau tai â chymorth, e.e. Cefnogi Pobl.
- Canran y defnyddwyr gofal cymdeithasol sy'n derbyn budd-daliadau.

- Canran y plant sy'n gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg a aseswyd i fod yn hollol barod ar gyfer yr ysgol ar ôl dechrau'r Cyfnod Sylfaen (ni fydd y data ar gael tan 2016).
- Canran y cyn Blant mewn Angen sy'n derbyn gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion.
- Canran y cyn Blant mewn Angen sy'n derbyn gwasanaethau drwy wasanaethau tai â chymorth, e.e. Cefnogi Pobl.
- Canran y preswylfeydd preifat sy'n bodloni diffiniad o orlawn Deddf Tai a Llywodraeth Leol 1985.

10. Nodwyd heriau sylweddol o ran defnyddio data cyswllt i greu dangosyddion perfformiad; gellir goresgyn rhai o'r rhain gyda gwaith datblygu pellach. Mae llawer o'r heriau hyn yn ymwneud â'r ffaith bod data gweinyddol yn cael ei gasglu at ddibenion gweithredol ac nid ymchwil. Mae nifer o gyfyngiadau hefyd i gronfa ddata SAIL yn benodol y bydd angen eu goresgyn fel y gellir nodi mwy o ddangosyddion perfformiad yn y dyfodol:

- er bod SAIL eisoes yn cynnwys niferoedd sylweddol o gofnodion iechyd rheolaidd a data ar gyfer ystod gynyddol o bynciau nad ydynt yn gysylltiedig ag iechyd, nid yw'n cynnwys cofnodion rheolaidd dienw ar hyn o bryd ar gyfer holl gleientiaid gofal cymdeithasol awdurdodau lleol Cymru;
- nid oedd rhywfaint o ddata a oedd yn cael ei gadw yn SAIL ar gael ar gyfer poblogaeth gyfan Cymru, e.e. ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, roedd data Digwyddiadau Meddygon Teulu ar gael i oddeutu 50% o Gymru, er bod targed wedi'i osod i brosiect a gyllidwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac iechyd gynyddu hyn i dros 70% erbyn mis Mawrth 2015;
- gall gymryd llawer o amser i gaffael setiau data gweinyddol newydd ar gyfer eu cysylltu a chael y data yn 'barod ar gyfer ymchwil';
- mae diffiniadau'n amrywio'n aml rhwng darparwyr data, sy'n golygu bod angen cysoni llafurus ar draws setiau data hyd yn oed os ydynt yn ymwneud â'r un gwasanaeth, unigolyn neu bwnc;
- wrth ddatblygu dangosyddion yn defnyddio setiau data gweinyddol mawr, cymhleth, bydd angen amser ac adnoddau o bosib i reoli'r cymhlethdod, e.e. penderfynu pa ddiffiniadau o ddangosyddion yn union i'w defnyddio a sut i reoli materion sy'n ymwneud ag, e.e. difrifoldeb a hyd.

11. Er bod prosiectau amrywiol a gyllidir neu a gynhelir gan awdurdodau lleol, y trydydd sector neu sefydliadau partner sy'n darparu gwasanaethau eraill wedi dod â data gofal cymdeithasol ychwanegol i SAIL, gwelodd y Prosiect fod y prosiectau hyn yn dueddol o ganolbwyntio ar grwpiau defnyddwyr penodol, grwpiau demograffig gymdeithasol a/neu ardaloedd daearyddol yn hytrach na'u bod yn ceisio caffael yr holl ddata gofal cymdeithasol ar gyfer Cymru neu'n sefydlu llif data rheolaidd rhwng awdurdodau lleol a SAIL.
12. Yn dilyn creu Rhwydwaith Ymchwil Data Gweinyddol y DU a gyllidir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol ac o ganlyniad i waith a wnaed ar gyfer prosiectau data cyswllt hen neu newydd (ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon), gyda rhai'n cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru, mae rhai o'r rhwystrau a amlinellir ym mharagraff 10 yn debygol o gael eu goresgyn yn rhannol o leiaf yn y blynyddoedd nesaf.
13. Yn y tymor hirach, bydd gweithdrefnu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r datblygiad cyfatebol o Cymru wedi caffael System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yn darparu'r cyfle i ddatblygu set ddata gofal cymdeithasol safonedig ar gyfer Cymru a allai gael ei chaffael gan SAIL o bosibl at ddibenion dadansoddi.

AWDURON

Karen Tingay, Prifysgol Cymru

Martin Heaven, Prifysgol Abertawe

Sarah Lowe, Llywodraeth Cymru

Safbwyntiau'r ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

Cysylltwch â:

Sarah Lowe

Y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: sarah.lowe@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

17 Rhagfyr 2015

ISBN: 978-1-4734-5488-0

© Hawlfraint y Goron 2015



Mae'r holl gynnwys ar gael dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, oni nodir yn wahanol

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>